# Fframwaith archwilio

Arolygiaeth Carchardai EF

Mawrth 2025

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Section 1 | Introduction | 3 |
| Section 2 | Operating context | 4 |
| | Mandate | 4 |
| | Protocols with partner organisations | 7 |
| | Expectations | 8 |
| Section 3 | The inspection process | 10 |
| | Inspection programming | 10 |
| | A prison inspection | 12 |
| | Week one of the inspection | 13 |
| | Assessment | 18 |
| | Exit surveys | 19 |
| | Publication of reports | 19 |
| | Following the inspection | 19 |
| | Announced inspections | 20 |
| | Urgent notification | 20 |
| | Independent reviews of progress | 21 |
| Section 4 | Further information | 24 |

# Section 1 Cyflwyniad

1.1 Mae’r ddogfen hon yn amlinellu’r fframwaith sy’n rheoli prosesau archwilio ac adolygu cynnydd Arolygiaeth Carchardai EF. Mae’n cael ei hategu gan lawlyfrau manwl i archwilwyr ar y broses archwilio ac ysgrifennu adroddiadau.

1.2 Mae'r fframwaith yn rhoi ein gwaith yn ei gyd-destun, yn unol â deddfwriaethau perthnasol ac o fewn rhwymedigaethau'r DU sy'n deillio o'i statws fel aelod o’r Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae’n amlinellu ein gwerthoedd a’r pedair thema strategol sy’n sail i’n gwaith.

1.3 Mae’r fframwaith hwn yn bennaf berthnasol i archwilio carchardai oedolion, ond mae'r egwyddorion cyffredinol yn berthnasol i archwilio lleoliadau cadw eraill. Mae’n egluro’r broses archwilio a’r fethodoleg, a sut rydym yn gweithio gyda sefydliadau partner.

1.4 Yn olaf, mae’n rhoi manylion y broses o lunio adroddiadau archwilio ac yn darparu ffynonellau at ragor o wybodaeth.

# Section 2 Cyd-destun gweithredu

## Mandad

2.1 Mae Prif Arolygwyr olynol wedi crynhoi pwrpas yr Arolygiaeth fel a ganlyn:

> Rydym yn sicrhau bod lleoliadau cadw yn cael eu harchwilio’n annibynnol, rydym yn adrodd ar amodau a thriniaeth, ac yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i’r bobl sydd mewn dalfa a’r cyhoedd.

2.2 Mae’r datganiad hwn o bwrpas yn deillio o ddyletswyddau a phwerau deddfwriaethol Prif Arolygwr Carchardai EF a rhwymedigaethau’r DU sy'n deillio o'i statws fel aelod o’r Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT), a’i chadarnhad o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

### Deddfwriaeth

2.3 Mae cyfrifoldebau Prif Arolygydd Carchardai EF wedi eu nodi yn adrannau 5A a 43 o Ddeddf Carcharau 1952 (fel y’i diwygiwyd). Bydd yn archwilio (neu’n trefnu i archwilio) y canlynol, ac yn adrodd i’r Ysgrifennydd Gwladol arnynt:

- carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, a chanolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru a Lloegr;
- cyfleusterau cystodaeth llys yng Nghymru a Lloegr a hebryngwyr i’r cyfleusterau hyn ac oddi yno; a
- chanolfannau symud mewnfudwyr, cyfleusterau cadw cyfnod byr, llety cyn-gadael a threfniadau hebrwng ledled y Deyrnas Unedig.

Yn benodol, bydd y Prif Arolygydd yn adrodd i’r Ysgrifennydd Gwladol ar yr amodau mewn sefydliadau, a’r ffordd mae pobl sy’n cael eu cadw yno yn cael eu trin.

2.4 Mae Atodlen A1 i Ddeddf Carcharau 1952 yn nodi pwerau a dyletswyddau pellach y Prif Arolygydd i gydweithredu ac ymgynghori ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill a chyrff eraill, sef:

- dirprwyo unrhyw un o’i swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus arall;
- paratoi rhaglen archwilio a fframwaith archwilio y mae'n rhaid ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a chyrff penodedig eraill yn ei gylch (nid yw hyn yn atal y Prif Arolygydd rhag gwneud ymweliadau heb rybudd);
- sicrhau nad yw archwiliadau gan gyrff penodedig eraill yn rhoi baich afresymol ar sefydliadau sydd o fewn ei gylch gwaith;

- cydweithredu â chyrff penodedig eraill pan fydd yn briodol gwneud hynny er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithlon ac yn effeithiol;
- gweithredu ar y cyd ag awdurdodau cyhoeddus eraill pan fydd yn briodol gwneud hynny er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithlon ac yn effeithiol;
- gweithredu ar y cyd ag arolygwyr cyfiawnder troseddol eraill i baratoi rhaglen cydarchwilio y mae'n rhaid ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a chyrff penodedig eraill yn ei chylch; a
- rhoi cymorth i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

2.5 Mae'r rhan fwyaf o'r archwiliadau a gynhelir gan y Prif Arolygydd yn elwa ar gymorth arolygiaethau eraill, ac mae archwiliadau o'r canolfannau hyfforddi diogel yn cael eu cynnal ar y cyd ag Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

2.6 Gall y Prif Arolygydd hefyd gynnal archwiliadau o gyfleusterau eraill drwy wahoddiad, gan gynnwys archwiliadau o gyfleusterau cadw milwrol, fel y Ganolfan Hyfforddiant Cywirol Milwrol a'r Cyfleusterau Cystodaeth i Aelodau'r Lluoedd Arfog yn y Deyrnas Unedig, carchardai yng Ngogledd Iwerddon (ar ran Archwiliad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon), carchardai ar Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel, a rhai carchardai tramor eraill mewn awdurdodaethau sydd â chysylltiadau â'r Deyrnas Unedig.

2.7 Rhaid i'r Prif Arolygydd baratoi adroddiad blynyddol i'w gyflwyno gerbron Senedd y DU.

## OPCAT

2.8 Mae'r DU yn rhan o OPCAT. Mae OPCAT yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol a luniwyd i gryfhau'r warchodaeth o bobl sydd wedi colli eu rhyddid. Mae OPCAT yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i gael eu trin yn wael, ac yn credu y dylai ymdrechion i roi diwedd ar driniaeth wael ganolbwyntio ar atal. Felly, mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer system o ymweliadau rhyngwladol a chenedlaethol â phob lleoliad cadw. Ar lefel genedlaethol, mae OPCAT yn mynnu bod partïon gwladwriaethol yn:

> Sefydlu, dynodi neu gynnal ar lefel ddomestig un neu nifer o gyrff ymweld er mwyn atal arteithio a math arall o driniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol... Rhaid cynnal yr ymweliadau hyn gyda golwg ar gryfhau, os oes angen, y warchodaeth o'r bobl hyn rhag artaith a math arall o driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol.

2.9 Gelwir y cyrff ymweld hyn yn Fecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM). Mae'r DU wedi dynodi 21 corff i'w Fecanwaith Atal Cenedlaethol. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn cyd-drefnu ac yn aelod o Fecanwaith Atal Cenedlaethol y DU.

2.10 Fel lleiafswm, mae OPCAT yn mynnu bod y Mecanweithiau:

- yn gweithredu'n annibynnol gyda staff annibynnol
- yn meddu ar ddigon o arbenigedd, cydbwysedd rhwng y rhywiau, a chynrychiolaeth ddigonol o leiafrifoedd ethnig a lleiafrifoedd eraill
- yn cael yr adnoddau angenrheidiol i wneud eu gwaith

ac yn cael y pwerau:

- i archwilio'n rheolaidd y driniaeth a roddir i bobl sydd wedi colli eu rhyddid mewn lleoliadau cadw
- i wneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau pobl mewn dalfa (mae'n ofynnol i'r Wladwriaeth wyntyllu argymhellion o'r fath a chynnal trafodaethau â'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol ynghylch eu gweithredu)
- i gyflwyno cynigion a sylwadau ynghylch deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli neu ddeddfwriaeth ddrafft
- i gael gafael ar yr holl wybodaeth ynghylch nifer y bobl sydd wedi colli eu rhyddid, eu lleoliad a'u triniaeth
- i gael mynediad i bob lleoliad cadw
- i gynnal cyfweliadau preifat â phawb sydd wedi colli eu rhyddid, yn ogystal ag unrhyw berson arall a allai ddarparu gwybodaeth berthnasol
- i ddewis y lleoliadau maent am ymweld â nhw, a'r bobl maent am eu cyfweld
- i gysylltu â'r Is-bwyllgor ar Atal Arteithio (y corff rhyngwladol a sefydlwyd gan OPCAT i ymweld â lleoliadau cadw, ac i ymgysylltu â Mecanweithiau Atal Cenedlaethol)
- i'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu ganddo gael ei hystyried yn wybodaeth freintiedig.

**Datganiad cydraddoldeb ac amrywiaeth**

2.11 Rydym wedi ymrwymo i greu a chynnal amgylchedd gwaith sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym ni'n credu bod gwahaniaeth ac amrywiaeth yn ein gweithlu yn cryfhau ein gwaith a'n dylanwad.

2.12 Ein gweledigaeth yw:

Have a workforce with the necessary expertise and sufficient diversity to reflect the community in which it operates.

Develop a more flexible and supportive working environment which always seeks to include difference.

Deliver learning and development opportunities to our staff so they are equipped to understand, inspect, and make valid and relevant findings relating to fair treatment.

Continue to build a confident and competent workforce who feel valued and heard.

## Protocolau gyda sefydliadau partner

2.13 Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn gweithio ar y cyd ag arolygiaethau eraill fel Ofsted, Estyn, Arolygiaeth Prawf EF, y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r gwaith hwn a wneir ar y cyd yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn archwiliadau, ac yn osgoi gorfod cynnal amryw o ymweliadau archwilio.

2.14 Mae cysylltiadau'r Arolygiaeth ag arolygiaethau partner, cyrff a archwilir a sefydliadau eraill yn cael eu llywodraethu gan nifer o gytundebau lefel gwasanaeth, memoranda cyd-ddealltwriaeth a phrotocolau y cytunwyd arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- protocol a Chytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS), y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Swyddfa Gartref (Mewnfudo a Ffiniau'r DU), Llu'r Ffiniau, Prif Arolygydd Annibynnol Ffiniau a Mewnfudo, Grŵp Arolygu Tân Safleoedd y Goron (CPFIG), Bwrdd Rheoli'r Byrddau Monitro Annibynnol ar ran y Byrddau Monitro Annibynnol yng Nghymru a Lloegr, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, NHS England, yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- protocolau gydag Ofsted ac Estyn.

2.15 Mae cytundebau newydd yn cael eu llunio a/neu eu diwygio yn ôl y gofyn, ac maent ar gael ar wefan yr Arolygiaeth.

## Disgwyliadau

2.16 Cynhelir archwiliadau Arolygiaeth Carchardai EF yn unol â meini prawf archwilio a gyhoeddir, sy'n cael eu galw'n Ddisgwyliadau. Mae'r Arolygiaeth yn gosod ei meini prawf archwilio ei hun i sicrhau tryloywder ac annibyniaeth. Man cychwyn pob archwiliad yw'r canlyniad i'r bobl sy'n cael eu cadw yno. Mae Disgwyliadau'r Arolygiaeth yn seiliedig ar safonau hawliau dynol rhyngwladol ac yn cyfeirio atynt, gyda'r nod o hyrwyddo triniaeth ac amodau sydd o leiaf yn cyrraedd safonau hawliau dynol rhyngwladol cydnabyddedig wrth gadw pobl mewn dalfa.

2.17 Mae'r disgwyliadau ar gyfer carchardai i ddynion a charchardai i fenywod ynghyd â sefydliadau troseddwyr ifanc yn cael eu crynhoi o dan y pedwar prawf ar gyfer sefydliad iach:

| Y Prawf | Canlyniad carchar iach |
|---|---|
| Diogelwch | Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel. |
| Parch (Gofal ar gyfer Sefydliadau Troseddwyr Ifanc) | Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas. |
| Gweithgarwch pwrpasol | Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny. |
| Paratoi ar gyfer rhyddhau (Ailsefydlu ar gyfer Sefydliadau Troseddwyr Ifanc) | Deallir bod paratoi ar gyfer rhyddhau yn un o swyddogaethau craidd y carchar. Mae carcharorion yn cael cymorth i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned. |

2.18 Mewn sectorau archwilio eraill, defnyddir yr egwyddorion sy'n sail i'r cysyniad o sefydliad iach, ond gall y pwyslais penodol amrywio gan ddibynnu ar eu perthnasedd.[1]

1 Yn achos canolfannau symud mewnfudwyr a chadw teuluoedd, y pedwar prawf yw diogelwch, parch, gweithgareddau a pharatoi ar gyfer symud a rhyddhau; yn achos cyfleusterau cadw cyfnod byr, y profion yw diogelwch, parch a pharatoi ar gyfer symud a rhyddhau; yn achos hebrwng o dramor, diogelwch, parch a pharatoi ar gyfer ailintegreiddio yw'r profion. Mae'r disgwyliadau ar gyfer cystodaeth llys yn dod o dan benawdau arweinyddiaeth, strategaeth a chynllunio, hawliau unigol, a thriniaeth ac amodau.

2.19 Mae’r Arolygiaeth yn cyhoeddi meini prawf archwilio ar gyfer asesu amodau'r canlynol a’r ffordd maent yn cael eu trin:

- dynion yn y carchar
- menywod yn y carchar
- plant yn y ddalfa
- pobl sy'n cael eu cadw mewn canolfannau goruchwyliaeth agos
- pobl sy’n cael eu cadw mewn canolfannau gwahanu
- mewnfudwyr sydd mewn dalfa
- pobl sy’n cael eu cadw dan gystodaeth llys
- pobl sy’n cael eu cadw yng nghyfleusterau cystodaeth y tri llu arfog, a'r Ganolfan Hyfforddiant Cywirol Milwrol (MCTC)
- canolfannau hyfforddi diogel (ar y cyd ag Ofsted).

Mae’r rhain ar gael ar wefan yr Arolygiaeth: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/our-expectations/

2.20 Mae pob disgwyliad yn disgrifio’r amodau a’r safonau triniaeth y disgwylir i sefydliad eu cyrraedd. Mae’r rhain yn seiliedig ar gyfres o ‘ddangosyddion’ sy’n disgrifio tystiolaeth a allai ddangos bod y disgwyliadau’n cael eu bodloni. Nid yw’r rhestr o ddangosyddion yn gyflawn, ac nid yw’n eithrio ffyrdd eraill o gyflawni’r disgwyliad.

# Section 3 Y broses archwilio

## Y rhaglen archwilio

3.1 Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn gweithredu rhaglen archwilio sydd bron yn gwbl ddirybudd (oni bai am amgylchiadau eithriadol), gyda phob archwiliad yn ystyried faint o gynnydd a wnaed ar yr argymhellion neu elfennau pryder perthnasol a nodwyd yn yr archwiliad llawn diwethaf. Mae amlder lleiaf wedi'i bennu ar gyfer archwilio pob math o sefydliadau, gydag amseriad yr archwiliadau yn fwriadol anrhagweladwy. Mae'r dull gweithredu hwnnw'n seiliedig ar wybodaeth ystyriol ac asesiadau risg rhagweithiol, ac yn ymateb iddynt. Mae pob archwiliad cynnydd a gynhelir yn dilyn archwiliad llawn blaenorol yn cynnwys asesiad o'r cynnydd a wnaed i weithredu'r argymhellion neu'r pryderon blaenorol a nodwyd.

3.2 Dyma'r cylch archwilio byrraf ar gyfer gwahanol sectorau cadw:

| Sector | Pa mor aml | Sylwadau |
|---|---|---|
| Carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc sy'n cadw oedolion ifanc, ac unedau arbenigol | Yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd o leiaf. | Bydd yr archwiliadau'n cael eu pennu drwy asesiad risg. Gall y rhan fwyaf o garchardai ddisgwyl cael eu harchwilio bob dwy i dair blynedd. Mae'n bosibl y bydd rhai sefydliadau risg uchel yn cael eu harchwilio'n amlach. Fe'i cynhelir ar y cyd ag Estyn/Ofsted (Lloegr) a'r Comisiwn Ansawdd Gofal/Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. |
| Sefydliadau troseddwyr ifanc (sy'n cadw plant iau na 18 oed) | Ymweliadau blynyddol er mwyn cynnal archwiliad neu adolygiad annibynnol o'r cynnydd. | Bydd yr Arolygiaeth yn cynnal adolygiad annibynnol o'r cynnydd 8-12 mis ar ôl pob archwiliad llawn, er mwyn adolygu'r cynnydd y mae arweinwyr a rheolwyr wedi'i wneud i fynd i'r afael ag argymhellion neu elfennau sy'n achosi pryder a nodwyd yn yr archwiliad blaenorol. Fe'i cynhelir ar y cyd ag |

| Sector | Pa mor aml | Sylwadau |
|---|---|---|
| | | Estyn neu Ofsted (Lloegr). |
| Canolfannau symud mewnfudwyr | Fe'i harchwilir o leiaf unwaith bob pedair blynedd, a bob dwy i dair blynedd os yw'r ganolfan yn cadw plant. | Mae'r archwiliadau'n cael eu pennu drwy asesiad risg. Gall y rhan fwyaf o ganolfannau symud mewnfudwyr ddisgwyl cael eu harchwilio bob dwy i dair blynedd. |
| Cyfleusterau cadw mewnfudwyr am gyfnod byr | Un i ddau archwiliad cenedlaethol bob blwyddyn. | Mae archwiliadau cenedlaethol yn cael eu rhannu'n gategorïau swyddogaethol, a byddant fel arfer yn cynnwys, er enghraifft, pob cyfleuster preswyl neu'r holl gyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan Lu'r Ffiniau mewn un archwiliad. Fodd bynnag, gall cyfleusterau unigol neu fathau o gyfleusterau gael eu harchwilio ar unrhyw adeg, fel y pennir drwy asesiad risg. |
| Cyfleusterau hebrwng mewnfudwyr | Mae dau neu dri o gyfleusterau hebrwng yn cael eu harchwilio bob blwyddyn. | |
| Cystodaeth llys | Mae tair ardal cystodaeth llys yn cael eu harchwilio bob blwyddyn. | |
| Canolfannau hyfforddi diogel | Yn cael eu archwilio'n flynyddol. | Mewn partneriaeth ag Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal. |
| Y Ganolfan Hyfforddiant Cywirol Milwrol | Yn cael ei harchwilio bob pedair blynedd o leiaf. | Drwy gytundeb a gwahoddiad gan y fyddin. |
| Cyfleusterau Cystodaeth i Aelodau Lluoedd Arfog y DU | Yn cael eu harchwilio bob pedair blynedd o leiaf. | Drwy gytundeb a gwahoddiad gan y fyddin. |

3.3 Mae amseriad archwiliadau o sefydliad yn seiliedig ar asesiad risg deinamig. Mae'r materion a ystyrir yn cynnwys y canlynol, ymysg eraill:

- yr amser sydd wedi mynd heibio ers yr archwiliad diwethaf
- y math o swyddogaeth a maint y sefydliad
- y canlyniadau i'r bobl yn y ddalfa, yn ôl asesiadau carchardai iach yr Arolygiaeth
- y cynnydd yn ôl yr Adolygiad Annibynnol o'r Cynnydd, os yw'n briodol
- newidiadau sylweddol i'r sefydliad neu newidiadau mewn arweinyddiaeth
- gwybodaeth a ddaw i law drwy ohebiaeth neu mewn ffyrdd eraill
- adroddiadau digwyddiadau a data diogelwch HMPPS
- data a gyhoeddwyd am berfformiad carchardai
- ymgyngoriadau ag arolygiaethau partner (fel sy'n ofynnol)
- asesiad gofal iechyd yr Arolygiaeth
- oed yr adeiladau.

3.4 Mae'r Arolygiaeth hefyd yn ymgymryd â rhaglen flynyddol o waith thematig a gwaith ar y cyd ag arolygiaethau eraill sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol ac arolygiaethau cysylltiedig.

3.5 Datblygir rhaglen archwilio ddrafft o fis Tachwedd ymlaen ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r math o archwiliadau, a'u nifer, yn destun ymgynghoriad yn unol â gofynion statudol. Cytunir ar y rhaglen tua thri mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, ond gall newid yn ystod y flwyddyn wrth i asesiadau risg newid.

## Archwiliad carchar

3.6 Mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu'r broses archwilio safonol ar gyfer carchardai dynion a menywod a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Mae'r broses ar gyfer archwilio sectorau cadw eraill yn seiliedig ar y fethodoleg graidd hon, ond mae wedi cael ei haddasu i ystyried natur benodol y sectorau hynny.

3.7 Fel arfer, bydd archwiliad carchar yn para am gyfnod o bythefnos. Yn ystod wythnos gyntaf yr archwiliad, bydd arolygwr cydlynu yn ymweld â´r sefydliad am ddau ddiwrnod. Bydd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF hefyd yn ymweld â'r sefydliad i gynnal arolwg o'r bobl sy'n cael eu cadw yno.

3.8 Yn ystod ail wythnos yr archwiliad bydd arweinydd y tîm a thîm o arolygwyr yn ymweld, gan gynnwys arolygiaethau partner ac arbenigwyr, ac mae'n para wythnos.[2] Mae pob arolygydd yn cario allweddi, a rhaid iddynt gael mynediad dirwystr i bob rhan o'r sefydliad, at ddogfennau perthnasol a'r bobl sy'n cael eu cadw yno. Pan fydd angen, bydd arolygwyr yn cyfathrebu'n breifat, ac yn gyfrinachol, â'r bobl sy'n cael eu cadw yno.

[2] Gall y trefniadau amrywio ar gyfer sectorau ar wahân i garchardai, fel sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, canolfannau symud mewnfudwyr a chystodaeth llys, ond byddant yn cael eu cyfleu ymlaen llaw i gyrff a archwilir.

3.9 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd y Prif Arolygydd eisiau i archwiliad gael ei gyhoeddi. Yn yr achos hwn, bydd arolwg llawn o'r bobl sy'n cael eu cadw yno a'r ymweliad cyn yr archwiliad yn cael eu cynnal ar ddyddiad a drefnwyd ymlaen llaw cyn yr archwiliad.

3.10 Mae gan yr Arolygiaeth Bolisi Tân, Iechyd a Diogelwch sy'n cynnwys polisïau ar wahân ac asesiadau risg diogelwch ar gyfer gwaith maes, gweithio ar eich pen eich hun, gyrru ar ddyletswydd, a'r protocol ar gyfer ymgysylltu mewn amgylchiadau eithriadol â'r bobl sydd mewn dalfa.

## Wythnos gyntaf yr archwiliad

3.11 Ni roddir mwy na 30 munud o rybudd i sefydliad cyn archwiliad dirybudd. Bydd pob rhan o'r sefydliad yn derbyn ymweliad yn fuan ar ôl cyrraedd.

3.12 Dyma bwrpas wythnos gyntaf yr archwiliad:

- cael syniad cychwynnol o'r amgylchedd (fel glendid, gwaith atgyweirio a hysbysiadau) a'r berthynas rhwng y staff a'r bobl sy'n cael eu cadw yno, ochr yn ochr ag unrhyw elfennau eraill sy'n achosi pryder ar sail deunydd briffio'r archwiliad neu wybodaeth benodol
- cwrdd â llywodraethwr/rheolwr y sefydliad a'r swyddog cyswllt penodedig ar gyfer yr archwiliad, sicrhau eu bod yn deall y broses archwilio'n llawn, a chynnig sicrwydd
- sicrhau bod holl ardaloedd risg uchel y sefydliad yn cael eu harchwilio
- egluro rôl y swyddog cyswllt
- bydd yr ymchwilwyr yn dosbarthu ac yn casglu'r arolwg o'r bobl sy'n cael eu cadw yno
- gwneud trefniadau ar gyfer yr archwiliad, gan ddefnyddio'r pecyn archwilio paratoadol i ddangos pa ddogfennau y gofynnir amdanynt a pha bryd y bydd eu hangen
- sicrhau bod y staff ymchwilio ac archwilio yn ymwybodol o unrhyw risgiau, bygythiadau, gweithdrefnau gadael os oes tân, a materion eraill yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y sefydliad
- caniatáu i'r llywodraethwr/rheolwr drafod unrhyw faterion perthnasol.

### Yr arolwg o'r bobl sy'n cael eu cadw yno

3.13 Un o elfennau hanfodol wythnos gyntaf yr archwiliad yw cynnal yr arolwg o'r bobl sy'n cael eu cadw yno. Mae aelodau o'r tîm ymchwilio yn cynnal arolwg o gyfran gynrychioliadol o'r boblogaeth sy'n cael eu cadw yno er mwyn casglu eu canfyddiadau – sy'n ffynhonnell allweddol o dystiolaeth. Caiff cyfranogwyr eu dewis ar hap ar draws pob adain/uned yn y sefydliad. Mae'r arolwg yn ddienw ac yn gyfrinachol. Mae'r ymchwilwyr yn siarad â phob unigolyn a ddetholwyd i egluro diben yr arolwg, ac yn mynd yn ôl i bob cell i gasglu'r arolwg yn nes

ymlaen y diwrnod hwnnw neu'r bore canlynol. Mae’r gwaith o ddosbarthu a chasglu’r arolwg yn cymryd hyd at ddau ddiwrnod.

3.14 Mewn carchardai ac archwiliadau mawr eraill, defnyddir yr arolwg i gymharu ymatebion y rheini sy’n cael eu cadw yn y sefydliad a archwiliwyd, a’r ymatebion cyfunol gan y rheini sy’n cael eu cadw mewn sefydliadau tebyg. Gwneir cymariaethau hefyd rhwng yr ymatebion presennol a’r rheini a gasglwyd yn yr archwiliad diwethaf, ochr yn ochr â dadansoddiad o’r ymatebion yn ôl nodweddion gwarchodedig. Mae data’r arolwg yn cael ei brofi am arwyddocâd ystadegol, ac mae’n cael ei ychwanegu at bob adroddiad.

3.15 Mae canfyddiadau’r arolwg yn rhan hanfodol o’r sylfaen dystiolaeth drionglog ar gyfer archwiliadau, ac yn rhoi golwg gadarn a chynrychioliadol o farn y bobl sydd mewn dalfa am y driniaeth a’r amodau mewn sefydliadau cadw. Mae cwestiynau'r arolwg yn cael eu seilio’n uniongyrchol ar y fersiwn berthnasol o'r Disgwyliadau.

3.16 Mewn cyfleusterau bach iawn, fel cyfleusterau cadw am gyfnod byr, defnyddir trefniadau fel cyfweliadau unigol neu samplu drwy ddulliau eraill i gael gwybod beth yw barn y bobl sy’n cael eu cadw yno.

### Arolwg staff

3.17 Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn defnyddio arolwg ar-lein o’r staff mewn carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Symud Mewnfudwyr, i ystyried barn a phrofiadau'r staff sy’n gweithio yn y sefydliad sy’n cael ei archwilio. Mae’r arolwg yn cynnwys cwestiynau am eu llesiant eu hunain yn ogystal â llesiant y bobl sy’n cael eu cadw yno, am arweinyddiaeth ac am godi pryderon. Mae ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF yn gofyn i’r swyddog cyswllt rannu’r ddolen URL at yr arolwg staff gyda’r holl aelodau staff sy’n gweithio yn y sefydliad, a’u gwahodd i gymryd rhan. Mae’r arolwg yn ddienw ac yn gyfrinachol. Mae’r arolwg ar agor i dderbyn ymatebion am saith diwrnod yn ystod wythnos gyntaf yr archwiliad.

3.18 Mewn carchardai ac archwiliadau mawr eraill, mae’r ymatebion i bob cwestiwn yn yr arolwg yn cael eu cyfrifo a’u hychwanegu at bob adroddiad. Hefyd, mae’r ymatebion i bob cwestiwn yn yr arolwg yn cael eu tablu yn ôl rôl y staff yn y sefydliad (nid yw’r rhain yn cael eu cyhoeddi er mwyn eu cadw’n anhysbys/cyfrinachol), er mwyn eu defnyddio i driongli’r dystiolaeth wrth archwilio.

3.19 Gall canfyddiadau’r arolwg staff ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol mewn perthynas ag effaith bosibl yr amodau ar gyfer y rheini sy’n cael eu cadw mewn sefydliad, a’r ffordd maent yn cael eu trin.

## Ail wythnos yr archwiliad

3.20 Mae ail wythnos yr archwiliad yn para hyd at bum diwrnod. Bydd y sefydliad wedi cael rhestr lawn ar ddechrau’r archwiliad o staff yr Arolygiaeth a fydd yn bresennol. Bydd pob arolygydd yn derbyn allweddi wrth gyrraedd.

## Y diwrnod cyntaf

Briffio'r Llywodraethwr/rheolwr

3.21 Fel arfer, bydd yr ail wythnos yn dechrau gyda sesiwn friffio ffurfiol gan y llywodraethwr/rheolwr am y sefydliad.

3.22 Bydd arweinydd tîm yr archwiliad yn cyflwyno'r tîm ac yn briffio'r llywodraethwr/rheolwr ynghylch y broses archwilio. Bydd hyn yn cynnwys disgrifiad byr o fethodolegau allweddol; y defnydd o Ddisgwyliadau, a'r hyn a fydd yn digwydd yn ystod yr wythnos, fel adborth gan yr arolygydd ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, yr ymweliad nos, a gofynion y Prif/Dirprwy Brif Arolygydd a phryd bydd yn cyrraedd.

3.23 Gwneir trefniadau hefyd i ymgysylltu'n llawn â'r Bwrdd Monitro Annibynnol, gan gynnwys cyfarfod a chymryd rhan yn ôl-drafodaeth yr archwiliad. Bydd y tîm hefyd yn cynnig cwrdd â chymdeithasau staff.

Tystiolaeth ddogfennol

3.24 Bydd tîm yr archwiliad yn gofyn i'r sefydliad ddarparu pob math o wybodaeth i gynorthwyo'r broses archwilio. Dylid danfon y dogfennau i brif ystafell y tîm ar gyfer diwrnod cyntaf yr archwiliad.

3.25 Bydd arolygwyr yn gyfarwydd â'r wybodaeth a ddarperir sy'n ymwneud â'u meysydd archwilio. Bydd y dogfennau'n cael eu gwirio, cyn y gofynnir am ragor o wybodaeth gan y sefydliad. Gwneir pob ymdrech i wneud cyn lleied â phosibl o geisiadau am dystiolaeth ddogfennol a data.

## Archwilio

3.26 Defnyddir y fersiwn berthnasol o'r Disgwyliadau ar gyfer pob archwiliad.

3.27 Mae'r fethodoleg archwilio'n seiliedig ar gymysgedd o ddulliau o gasglu tystiolaeth ar archwiliadau.

Mae pum ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i'w harchwilio.

- **Arsylwi:** bydd arolygwyr yn arsylwi mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol adegau o'r dydd (gan gynnwys oriau cymdeithasu gyda'r nos). Bydd arolygwyr yn arsylwi ar ryngweithio ac yn asesu ansawdd y berthynas rhwng y staff a'r bobl sy'n cael eu cadw yno. Bydd y gwaith arsylwi'n cynnwys ymweliad nos gan arolygwyr, ac asesiad llawn o'r gweithdrefnau gyda'r nos.

- **Y bobl sy'n cael eu cadw yno**: mae gwrando ar lais y bobl sy'n cael eu cadw yno yn rhan ganolog o unrhyw archwiliad. Yn ychwanegol at yr arolwg, bydd yr arolygwyr yn siarad â'r bobl sy'n cael eu cadw yno – naill ai'n anffurfiol ar yr adeiniau neu mewn cyfweliadau un-i-un – er mwyn cael syniad o'r hyn sy'n digwydd go iawn yn y sefydliad. Gall yr arolygwyr hefyd gwrdd â grwpiau

ohonynt er mwyn trafod. Os bydd yr arolygwyr yn dymuno siarad â phobl sy'n methu siarad Saesneg, byddant yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd dros y ffôn. Gall y bobl sy'n cael eu cadw yno siarad ag arolygwyr yn breifat ac yn gyfrinachol.[3]

- **Staff:** yn ychwanegol at yr arolwg, bydd arolygwyr yn siarad â staff yn anffurfiol wrth iddynt gerdded o amgylch y sefydliad ac mewn cyfweliadau unigol. Byddant yn gofyn i'r staff beth maen nhw'n meddwl sy'n digwydd go iawn yn y sefydliad, a beth yw eu barn am bolisïau a gweithdrefnau, ac am eu rôl unigol. Bydd yr arolygwyr yn siarad ag amrywiaeth o staff, gan gynnwys uwch reolwyr, staff adain, a staff arbenigol.

- **Trydydd partïon perthnasol:** bydd arolygwyr yn siarad â sefydliadau statudol ac anstatudol, er enghraifft cynrychiolwyr o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y Bwrdd Monitro Annibynnol, grwpiau gwirfoddol a chyfreithwyr, am eu profiadau nhw a phrofiadau'r bobl y maen nhw'n eu cynrychioli sy'n cael eu cadw mewn dalfa. Gall ymwelwyr hefyd fod yn ffynhonnell dda o wybodaeth.


- **Dogfennau:** yn ogystal â'r dystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd ar ddechrau'r archwiliad, bydd yr arolygwyr yn edrych ar gofnodion unigolion sy'n cael eu cadw yno, fel llyfrau arsylwi, P-Nomis (system TG y Gwasanaeth Carchardai), data perfformiad o system HMPPS performance hub, cofnodion dyddiol yn yr adain, cynlluniau gofal a chynlluniau dedfrydu/gorchymyn cadw a hyfforddi, i gadarnhau eu canfyddiadau. Mae rhywfaint o dystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys ffurflenni cwyno a data monitro CAMPUS, yn addas ar gyfer dadansoddiad rhifol, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i weld patrymau. Gall tîm yr archwiliad hefyd gasglu tystiolaeth ffotograffig i ddangos amodau nad oes modd eu disgrifio'n ddigonol neu i bwysleisio canfyddiad, gyda phrotocolau y cytunwyd arnynt â'r cyrff a archwilir yn rheoli'r broses honno. Bydd arolygwyr hefyd yn adolygu adroddiad hunanasesu y sefydliad, a wnaed gan y llywodraethwr neu gyfarwyddwr y ganolfan.

## Arweinyddiaeth

3.28 Mae Arolygiaeth Carchardai EF wedi cryfhau'r broses o archwilio arweinyddiaeth drwy gyflwyno Disgwyliadau o ran arweinyddiaeth.

Mae'r Disgwyliadau hyn yn ymdrin â'r elfennau canlynol:

3 Bydd arolygwyr bob amser yn cadw mewn cof yr egwyddor o gyfrinachedd, diogelwch a sensitifrwydd wrth gyfweld â'r bobl sy'n cael eu cadw yno. Dylai pob cyfweliad unigol â phobl sydd wedi colli eu rhyddid gael ei gynnal y tu hwnt i glyw pobl eraill. Yr eithriad i'r rheol hon yw os bydd pobl sy'n cael eu cadw yno yn datgelu bygythiad i ddiogelwch neu lesiant unigolyn neu i ddiogelwch y sefydliad, neu os oes rhywun sy'n cael ei gadw yno wedi dioddef unrhyw anfantais o ganlyniad i gyfathrebu â'r Arolygiaeth (gelwir hyn yn gosbau neu'n sancsiynau). Mae manylion llawn ein protocolau sancsiynau ac amddiffyn (diogelu), gan gynnwys pwy y gallwn rannu gwybodaeth â nhw, i'w gweld ar ein gwefan.




- **Cyfeiriad:** Mae arweinwyr yn cydweithio â staff, rhanddeiliaid a charcharorion i bennu a chyfleu blaenoriaethau strategol a fydd yn gwella canlyniadau i garcharorion.

- **Ymgysylltu:** Mae arweinwyr yn creu diwylliant lle mae staff a rhanddeiliaid eraill yn fodlon cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella canlyniadau i garcharorion.

- **Galluogi:** Mae arweinwyr yn darparu'r adnoddau angenrheidiol sy'n galluogi carcharorion i gael canlyniadau da.

- **Gwelliant parhaus:** Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau sy'n ategu canlyniadau da i garcharorion. Maent yn monitro cynnydd yn ofalus yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

Yn ein Disgwyliadau, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli. Nid yw ein Disgwyliadau o ran arweinyddiaeth yn cael eu sgorio.

Triongli tystiolaeth yr archwiliad

3.29 Lle bynnag y bo modd, bydd arolygwyr yn seilio holl ganfyddiadau/dyfarniadau'r archwiliad ar driongli nifer o ffynonellau tystiolaeth. Yn yr achos hwn, mae triongli yn golygu cadarnhau ffynhonnell o dystiolaeth gydag o leiaf ddwy ffynhonnell wahanol arall (er, weithiau, bydd digwyddiad/canfyddiad yn ddigon pwysig i sefyll ar ei ben ei hun). Pan fydd yn bosibl, byddant yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng data meintiol – fel data sy'n dangos patrwm dros gyfnod o chwe mis o leiaf, er enghraifft – a ffynonellau o dystiolaeth

ansoddol – fel cyfweliadau a grwpiau, sy’n gallu egluro’r rheswm dros y patrwm. Bydd arolygwyr bob amser yn ceisio dod o hyd i dystiolaeth ategol o ffynonellau eraill, ond perthnasol.

3.30 Mae arolygwyr yn gyfrifol am archwilio’r amodau ar gyfer pawb sy’n cael eu cadw mewn dalfa, a’r ffordd maent yn cael eu trin. Er y gall cwynion unigol gyfrannu at farn am yr amodau ar gyfer y boblogaeth gyfan, ni fydd arolygwyr yn cytuno i fwrw ymlaen ag achos penodol ar ran rhywun yn y ddalfa, nac yn gwirfoddoli unrhyw un arall i wneud hynny. Hefyd, maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pobl mewn dalfa a fyddai, o bosibl, yn gwella drwy gadw at dargedau rheoli neu bolisïau sydd eisoes yn bodoli. Gall yr Arolygiaeth ddewis anghytuno â pholisïau nad ydynt er budd gorau’r bobl yn y ddalfa, a gall nodi elfennau sy’n achosi pryder neu argymell newidiadau o ganlyniad i hynny.

Adrodd yn ôl i’r rheolwyr

3.31 Mae archwilio yn broses dryloyw. Bydd rheolwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau sy’n dod i’r amlwg drwy gydol yr archwiliad, a bydd arolygwyr yn darparu tystiolaeth ar gyfer eu canfyddiadau ac yn annog herio ar sail tystiolaeth. Erbyn diwedd y broses, bydd yr arolygwyr yn sicrhau bod y rheolwr yn deall y canfyddiadau, nad oes ganddo ymateb pellach, a’i fod yn gwybod beth y mae’n debygol o’i glywed yn yr ôl-drafodaeth ar ddiwedd yr archwiliad. Fodd bynnag, gwneir y casgliadau terfynol yn ôl disgresiwn y Prif neu’r Dirprwy Brif Arolygydd.

3.32 Bydd arweinydd y tîm hefyd yn rhoi adborth ar y canfyddiadau allweddol i’r Llywodraethwr/Cyfarwyddwr neu i Brif Weithredwr y sefydliad bob dydd o leiaf, a hefyd yn annog herio ar sail tystiolaeth yn ystod y sgyrsiau hyn.

3.33 Cydnabyddir bod proffil archwiliadau Arolygiaeth Carchardai EF a’r craffu a ddaw yn eu sgil, yn enwedig pan fydd canlyniadau gwael, yn gallu bod yn bersonol heriol i Lywodraethwyr a’u timau. Bydd Arolygiaeth Carchardai EF, gan gynnal ei rôl graffu annibynnol, yn gweithredu’n broffesiynol ac yn sensitif i liniaru’r risgiau cysylltiedig a, phan fydd angen, yn rhybuddio HMPPS neu’r Swyddfa Gartref os bydd pryderon difrifol ynghylch llesiant unigolion yn dod i’r amlwg yn ystod yr archwiliad.

Rhoi gwybod am bryderon sylweddol

3.34 Os bydd Arolygiaeth Carchardai EF yn canfod pryder sylweddol, naill ai yn ystod neu ar ôl archwiliad – er enghraifft, achos posibl o dor diogelwch – byddwn, os yw’n briodol, yn rhoi gwybod i’r arweinydd perthnasol yn HMPPS neu’r Swyddfa Gartref, naill ai’n bersonol, dros y ffôn neu drwy e-bost.

3.35 Gan ddibynnu ar natur y pryder, bydd Arolygiaeth Carchardai EF hefyd yn ystyried y systemau adrodd canlynol:

- Cyflwyno Adroddiad Gwybodaeth Mercury (MIR) drwy lwyfan gwasanaethau digidol carchardai HMPPS; a/neu
- Cyfeirio at brotocolau mewnol Arolygiaeth Carchardai EF gan gynnwys y prosesau diogelu neu sancsiynau, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Methodoleg ar gyfer mewnfudwyr

3.36 Defnyddir methodoleg estynedig yn ystod archwiliadau o ganolfannau symud mewnfudwyr, sy'n golygu bod archwiliadau'n para dros dair wythnos. Y prif reswm am hynny yw er mwyn caniatáu amser i gynnal a dadansoddi cyfweliadau gyda mewnfudwyr sy'n cael eu cadw yno. Bydd pob un ohonynt yn cael cynnig cyfweliad cyfrinachol gydag arolygwyr, gyda gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen. Gellir cyfweld â'r staff hefyd os byddant yn gofyn am gael siarad â'r arolygwyr.


**Casgliad archwiliad**

3.37 Un o nodweddion allweddol y broses archwilio yw presenoldeb y Prif Arolygydd Carchardai neu'r Dirprwy Brif Arolygydd Carchardai ar ddiwrnod olaf ond un yr archwiliad. Ei rôl yw ymgyfarwyddo â'r sefydliad sy'n cael ei archwilio, a chyfrannu at y broses sicrhau ansawdd ac asesu ar ddiwedd yr archwiliad.

'Pwyso a mesur' a dyfarnu

Bydd asesiad o berfformiad y sefydliad yn cael ei gynnal yn unol â'r profion perthnasol ar gyfer sefydliad iach a nodwyd yn y Disgwyliadau perthnasol.

Mewn carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, dyma'r pedwar prawf:




3.38 Bydd y prif ganfyddiadau ac asesiadau yn cael eu cyflwyno i'r sefydliad ar ddiwrnod olaf yr archwiliad.

## Asesu

3.39 Bydd tîm yr archwiliad yn asesu perfformiad y sefydliad yn unol â'r profion perthnasol ar gyfer sefydliad iach, gan ddefnyddio’r dyfarniadau canlynol.

| Rhif | Diffiniad |
|---|---|
| 4 | **Mae’r canlyniadau i garcharorion yn dda.** Nid oes unrhyw dystiolaeth o effaith niweidiol ar unrhyw elfennau arwyddocaol o ran y canlyniadau i'r bobl yn y ddalfa. |
| 3 | **Mae’r canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda.** Ceir tystiolaeth o ganlyniadau niweidiol i’r bobl yn y ddalfa mewn nifer bach o elfennau’n unig. Nid oes unrhyw bryderon sylweddol ar gyfer y mwyafrif. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau. |
| 2 | **Nid yw'r canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.** Ceir tystiolaeth o effaith niweidiol ar lawer o elfennau o ran y canlyniadau i'r bobl yn y ddalfa, neu’n enwedig ar yr elfennau hynny sydd bwysicaf i lesiant pobl mewn dalfa. Mae problemau/pryderon yn debygol o achosi pryder difrifol os na fyddant yn derbyn sylw. |
| 1 | **Mae’r canlyniadau i garcharorion yn wael.** Ceir tystiolaeth bod yr arferion presennol yn cael effaith ddifrifol ar y canlyniadau i bobl yn y ddalfa. Nid yw’r bobl yn y ddalfa hyd yn oed yn derbyn triniaeth a/neu amodau priodol. Mae angen cymryd camau unioni ar unwaith. |

## Arolygon gadael

3.40 Ar ddiwrnod olaf yr archwiliad, anfonir archwiliadau gadael i’r sefydliad a archwiliwyd. Mae’r archwiliad gadael yn casglu barn gan staff y sefydliad am y ffordd y cynhaliwyd yr archwiliad; mae hyn yn galluogi’r Arolygiaeth i fonitro a gwella sut mae’n archwilio pob math o sefydliad.

## Cyhoeddi adroddiadau

3.41 Cyhoeddir adroddiadau archwilio mewn templedi safonol i sicrhau cysondeb o ran arddull a fformat. Bydd adroddiadau a gyhoeddir yn nodi’n glir y pryderon neu’r argymhellion y mae angen i arweinwyr roi sylw iddynt (gweler isod mewn perthynas â chynlluniau gweithredu), a bydd arolygwyr yn asesu’r cynnydd a wnaed yn yr archwiliad nesaf neu mewn adolygiad annibynnol o’r cynnydd. Bydd adroddiadau drafft yn cael eu hanfon at y corff a archwiliwyd er mwyn cadarnhau eu bod yn ffeithiol gywir cyn eu cyhoeddi. Dylai holl adroddiadau archwilio carchardai gael eu cwblhau’n derfynol a’u cyhoeddi o fewn 14 wythnos i ddiwedd yr archwiliad.

## Yn dilyn yr archwiliad

3.42 Yn unol â phrotocolau y cytunwyd arnynt, dylai'r carchardai a archwiliwyd lunio cynllun gweithredu cychwynnol sy'n ymateb i'r argymhellion a wnaed neu'r pryderon a nodwyd gan yr Arolygiaeth. Dylai'r cynllun gweithredu hwn fod ar gael dri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'r camau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i ymateb i bob argymhelliad neu elfen a oedd yn achosi pryder a'r amserlen ar gyfer pob cam. Bydd cynlluniau gweithredu'r cyrff a archwiliwyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF.

3.43 Bydd arweinwyr tîm yn gwirio ac yn herio cynnwys y cynllun gweithredu cychwynnol os oes angen, yn dilyn trafodaethau â'r Prif neu'r Dirprwy Brif Arolygydd. Mae cynlluniau gweithredu yn rhan o'r gronfa ddata o wybodaeth y mae'r Arolygiaeth yn ei defnyddio i lywio archwiliadau dilynol. Disgwylir felly i arolygwyr gyfeirio at gynlluniau gweithredu a thystiolaeth ddogfennol ac electronig arall i baratoi ar gyfer archwiliad.

## Archwiliadau lle rhoddwyd rhybudd

3.44 Mae archwiliadau lle rhoddwyd rhybudd yn dilyn yr un fformat ag archwiliadau dirybudd (fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol), ac eithrio bod wythnos gyntaf yr archwiliad yn cael ei chynnal ar ddyddiad a drefnwyd ymlaen llaw cyn yr archwiliad. Mae gan y Prif Arolygydd yr opsiwn i gyhoeddi archwiliad ymlaen llaw os yw'n angenrheidiol o safbwynt gweithredol – er enghraifft, archwiliad mewn awdurdodaethau eraill, neu os gallai helpu'r sefydliad i fynd i'r afael â phryderon a gwneud gwelliannau.

3.45 Bydd arolygwyr yn arwain y swyddog cyswllt drwy ofynion tîm yr archwiliad.

## Hysbysiad brys

3.46 Wrth archwilio carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel (yr olaf gyda chytundeb HMCI Ofsted a Phrif Arolygydd Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol a Gofal Integredig y Comisiwn Ansawdd Gofal), gall HMCIP nodi pryderon sylweddol ynghylch amodau'r bobl sy'n cael eu cadw yno a'r ffordd maent yn cael eu trin. Yn yr achos hwn, bydd y Prif Arolygydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o fewn saith diwrnod calendr i ddiwedd yr archwiliad.

Bydd unrhyw benderfyniad i roi hysbysiad brys i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch pryderon sylweddol yn cael ei wneud yn ôl dyfarniad HMCIP (ac ar gyfer Canolfannau Hyfforddi Diogel, bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar y cyd â HMCI Ofsted a Phrif Arolygydd Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol a Gofal Integredig y Comisiwn Ansawdd Gofal). Bydd y dyfarniad yn seiliedig ar ffactorau perthnasol a welwyd yn ystod yr archwiliad, a gallai gynnwys:

- asesiadau gwael yn y prawf carchar iach

- patrwm dyfarniadau yn y prawf carchar iach
- asesiadau gwael dro ar ôl tro
- y math o garchar a’r risgiau sy’n bodoli
- pa mor fregus yw’r bobl sy’n cael eu cadw yno
- peidio mynd i'r afael ag elfennau sy’n achosi pryder neu gyflawni argymhellion
- ffydd yr Arolygiaeth yng ngallu’r sefydliad i newid a gwella.

3.47 Ar gyfer carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, bydd y Prif Arolygydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol (gyda chopi’n cael ei anfon at randdeiliaid perthnasol) o fewn saith diwrnod calendr i ddiwedd yr archwiliad, gan ddarparu hysbysiad brys am y pryderon sylweddol a’r rhesymau dros y pryderon hynny. Bydd yr hysbysiad yn crynhoi’r dyfarniadau ac yn nodi materion y mae angen eu gwella. Fel rhan o’r broses archwilio, bydd Llywodraethwr neu Gyfarwyddwr y sefydliad perthnasol wedi cael gwybod beth yw bwriad y Prif Arolygydd. O leiaf 24 awr ar ôl i’r llythyr gael ei anfon yn breifat at yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF a’i ddosbarthu i’r cyfryngau a drwy gyfryngau cymdeithasol.

3.48 Mae archwiliadau o Ganolfannau Hyfforddi Diogel yn cael eu cynnal gan Ofsted, Arolygiaeth Carchardai EF a’r Comisiwn Ansawdd Gofal o dan Fframwaith Cydarchwilio.[4] Yn achos Canolfannau Hyfforddi Diogel, os bydd y Prif Arolygwyr yn penderfynu rhoi’r broses hysbysiad brys ar waith, bydd Ofsted, fel yr arolygiaeth arweiniol, yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar ran yr arolygiaethau i egluro eu cyd-bryderon. Fel rhan o’r broses archwilio, bydd Cyfarwyddwr y sefydliad perthnasol wedi cael gwybod am y bwriad i gyhoeddi hysbysiad brys. Bydd y Cyfarwyddwr hefyd yn derbyn copi o’r llythyr ar yr un pryd ag y bydd yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol. Pedair awr ar hugain ar ôl i’r llythyr gael ei anfon yn breifat at yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd yn cael ei gyhoeddi gan Ofsted.

3.49 Ar ôl cael hysbysiad brys, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol 28 diwrnod calendr i ymateb yn gyhoeddus i’r pryderon a godwyd yn y llythyr a gyhoeddwyd. Bydd yr ymateb yn egluro sut bydd y canlyniadau i’r rheini sy’n cael eu cadw yn y sefydliad yn gwella yn y tymor byr a’r tymor hwy.

3.50 Yn dilyn hysbysiad brys am garchar neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc, bydd Arolygiaeth Carchardai EF yn ailarchwilio’r sefydliad maes o law ar ddyddiad a bennwyd gan ei phroses amserlennu sy’n seiliedig ar risg. Yn dilyn hysbysiad brys am Ganolfan Hyfforddi Diogel, bydd yr archwiliad neu’r ymweliad nesaf yn cael ei gynnal yn unol â’r Fframwaith Cydarchwilio.

---

[4] Mae archwiliadau o Ganolfannau Hyfforddi Diogel yn cael eu cynnal gan Ofsted, Arolygiaeth Carchardai EF a’r Comisiwn Ansawdd Gofal o dan Fframwaith Cydarchwilio: Joint inspection framework: secure training centres - GOV.UK (www.gov.uk). I gael esboniad llawn o’r fethodoleg ar y cyd, edrychwch ar y Fframwaith hwnnw.

## Adolygiadau annibynnol o’r cynnydd

3.51 Yn ogystal â’i rhaglen o archwiliadau, mae Arolygiaeth Carchardai EF hefyd yn cynnal adolygiadau annibynnol o’r cynnydd mewn carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Symud Mewnfudwyr. Pwrpas Adolygiad Annibynnol o’r Cynnydd yw asesu'r cynnydd a wnaed i roi sylw i’r argymhellion neu’r elfennau pryder a nodwyd yn yr archwiliad blaenorol, cefnogi gwelliant, a dod o hyd i rwystrau rhag cynnydd.

3.52 Mae Adolygiadau Annibynnol o’r Cynnydd yn wahanol i archwiliadau, sy’n asesu’r ffordd mae carcharorion neu bobl sydd mewn dalfa yn cael eu trin, a’r amodau cadw, yn erbyn Disgwyliadau Arolygiaeth Carchardai EF a’r pedwar prawf ar gyfer carchar iach. Yn hytrach na hynny, mae Adolygiadau Annibynnol o’r Cynnydd yn edrych ar ddetholiad o argymhellion neu elfennau pryder a nodwyd, ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch faint o gynnydd a wnaed.

3.53 Mae safleoedd yn cael eu dynodi yn ôl disgresiwn y Prif Arolygydd, ond rhoddir ystyriaeth benodol i’r ffactorau canlynol:

- sgoriau gwael (1) yn y profion carchar iach
- patrwm dyfarniadau carchar iach
- archwiliadau gwael dro ar ôl tro
- y math o garchar a’r risgiau sy’n bodoli
- pa mor fregus yw’r bobl sy’n cael eu cadw yno
- peidio â chyflawni argymhellion blaenorol
- lefel y ffydd yn yr arweinyddiaeth, a’r gallu i newid a gwella
- barn y Prif Arolygydd y bydd adolygiad cynnydd yn helpu i annog gwelliant parhaus.

3.54 Bydd Arolygiaeth Carchardai EF yn ymgymryd â 15-20 o Adolygiadau Annibynnol o’r Cynnydd ym mhob blwyddyn fusnes. Fel arfer, bydd adolygiadau’n cael eu cynnal rhwng wyth a 12 mis ar ôl yr archwiliad.

3.55 Mae’r Adolygiadau Blynyddol o’r Cynnydd yn ymweliadau byr lle rhoddwyd rhybudd yn eu cylch, ac maent yn para am 2.5 diwrnod. Bydd arolygwyr yn asesu'r cynnydd a wnaed ers yr archwiliad blaenorol yn erbyn yr elfennau a oedd yn achosi pryder (bydd y rhain bob amser yn cynnwys unrhyw bryderon blaenoriaethol), ac yn gwneud un o bedwar dyfarniad posibl mewn perthynas â phob argymhelliad neu elfen a oedd yn achosi pryder.

| Dyfarniad | Diffiniad |
|---|---|
| Dim cynnydd ystyrlon | Nid yw’r rheolwyr, hyd yma, wedi llunio ac ariannu cynllun gwella realistig ar gyfer yr argymhelliad hwn neu’r elfen sy’n achosi pryder. |
| Cynnydd annigonol | Mae rheolwyr wedi dechrau rhoi strategaeth wella realistig ar waith ar gyfer yr argymhelliad hwn neu'r elfen sy’n achosi pryder, ond nid yw’r camau a gymerwyd wedi arwain eto at dystiolaeth amlwg o |

| Dyfarniad | Diffiniad |
|---|---|
| | gynnydd (er enghraifft, gwell systemau a phrosesau) neu ganlyniadau gwell i garcharorion. |
| Cynnydd rhesymol | Mae rheolwyr wedi rhoi strategaeth wella realistig ar waith ar gyfer yr argymhelliad hwn neu'r elfen sy'n achosi pryder, ac mae tystiolaeth o gynnydd (er enghraifft, gwell systemau a phrosesau) a/neu dystiolaeth gynnar o rywfaint o ganlyniadau gwell i garcharorion. |
| Cynnydd da | Mae rheolwyr wedi rhoi strategaeth wella realistig ar waith ar gyfer yr argymhelliad hwn neu elfen sy'n achosi pryder, ac wedi sicrhau gwelliant clir o ran y canlyniadau i garcharorion. |

3.56 Cyhoeddir adroddiadau ar yr Adolygiadau Annibynnol o'r Cynnydd o fewn 25 diwrnod gwaith i ddiwedd yr adolygiad.

# Section 4 Rhagor o wybodaeth

4.1 I gael rhagor o wybodaeth am y broses archwilio, gan gynnwys amddiffyn pobl sydd mewn dalfa rhag sancsiynau, meysydd pwnc newydd a rhai sy’n datblygu, a’n safonau proffesiynol, gan gynnwys ymddygiad staff a chwynion, edrychwch ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF, hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk, neu’r dogfennau ategol:

- Disgwyliadau (ar gael ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau)
- Geirfa'r adroddiad
- Cod ymddygiad staff Arolygiaeth Carchardai EF
- Polisi a phrotocol diogelu Arolygiaeth Carchardai EF
- Polisi cwynion

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
3ydd Llawr
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU